


# Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer y Gweithlu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh)

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer y Gweithlu GCCh (y fframwaith) yn nodi'r safonau y dylid eu defnyddio i lywio arfer ar gyfer rheini sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth a/neu gyngor a/neu gymorth ar gyfer gofal a chymorth.

Cyhoeddwyd gyntaf: 10 Mai 2022

Diweddariad olaf: 28 Hydref 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i http://cynnwys.gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframwaith-cymhwysedd-ar-gyfer-y-gweithlu-gwybodaeth-cyngor-a-chymorth am y fersiwn diweddaraf.

Mae’r *Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer y Gweithlu GCCh* (y fframwaith) yn nodi’r safonau y dylid eu defnyddio i lywio arfer ar gyfer rheini sy’n ymwneud â darparu gwybodaeth a/neu gyngor a/neu gymorth ar gyfer gofal a chymorth. Nid yw'r fframwaith yn orfodol ond bwriedir iddo fod yn declyn defnyddiol sy'n helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cymhwysedd eu gweithwyr a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

# Cyflwyniad

Swyddogaethau’r ‘ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol’ (YGC) a phersonél gwybodaeth, cyngor a chymorth (GCCh) eraill

## Ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol (YGC)

Mae ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ymgymryd â beth yn fras a ellir ei ddisgrifio fel swyddogaeth cymorth gwaith cymdeithasol, darparu cyngor a chwblhau amrywiol agweddau o gynllunio gofal a chefnogaeth (asesu, cynllunio ac adolygu).

## Swyddogaeth GCCh ehangach

Mae swyddogaeth GCCh ehangach ychwanegol, o fewn y gwasanaeth GCCh. Gall y gwasanaeth amrywio yn sylweddol yn ei gynllun a’i seilwaith ar draws ac o fewn awdurdodau lleol. Gall gynnwys amrediad o wahanol gyfarwyddiaethau, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol, tai a gwasanaethau corfforaethol yn ogystal â darpariaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd. Mae angen i weithwyr ymateb i amrediad eang o geisiadau a nhw yw’r cyswllt cyntaf i’r rhai hynny sy’n holi ynglŷn â gofal a chefnogaeth.

Gan ddefnyddio’r dull canlyniadau yn ymarferol, drwy sgyrsiau medrus, bydd gweithwyr GCCh yn egluro beth y mae pobl yn ei feddwl ac yn archwilio eu dilema er mwyn deall beth sydd o’r pwys mwyaf iddyn nhw a sut orau i’w helpu nhw drwy ddarparu un ai:

**Rhoi gwybodaeth** – mae hwn yn cynnwys cefnogi pobl drwy ddarparu gwybodaeth o ansawdd da sy’n eu helpu nhw i wneud penderfyniadau deallus ynglŷn â’u llesiant. Gall hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut mae’r system gofal cymdeithasol yn gweithio, argaeledd gwasanaethau a all gynorthwyo eu llesiant ynghyd â sut i gael mynediad atyn nhw, taliadau uniongyrchol, neu wybodaeth ynglŷn ag asesiadau’r gofalwyr.

**Darparu cyngor** – cam yn uwch o’r ddarpariaeth syml o wybodaeth yw hwn, yn y modd y mae’n cynnwys gweithio gyda phobl er mwyn trafod y dewisiadau sydd ar gael i ddod o hyd i’r atebion gorau ar eu cyfer. Er mwyn darparu cyngor, mae staff yr awdurdodau lleol angen dealltwriaeth ynglŷn â sefyllfaoedd pobl. Gwneir hyn drwy gynnal asesiad cymesur.

**Darparu cymorth** – os ydych chi’n methu ag ymdrin ag anghenion yr holwr drwy ddarparu gwybodaeth neu gyngor, bydd cymorth yn golygu y bydd unigolyn arall yn gweithredu gyda’r holwr i gael mynediad at ofal a chefnogaeth, neu ofalwr i gael mynediad at gefnogaeth. Gall hyn arwain yr holwr ymlaen i dderbyn neu gynnig asesiad statudol llawn er mwyn penderfynu eu cymhwysedd ar gyfer derbyn gofal a chefnogaeth mwy ffurfiol.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a’r Codau Ymarfer

## Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn darparu’r sylfaen ar gyfer fframwaith statudol newydd i ofal cymdeithasol yng

**Nghymru. Egwyddorion y Ddeddf yw:**

- llais a rheolaeth
- ataliad ac ymyrraeth gynnar
- llesiant
- cydgynhyrchu
- gweithio amlasiantaethol.

Mae’r gwasanaeth GCCh yn gyfraniad pwysig i gwrdd â’r egwyddorion hyn. O dan y Ddeddf, mae’n rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaeth sy’n cynnig:

- gwybodaeth hygyrch ynglŷn â gofal a chefnogaeth
- cyngor sy’n briodol ac sy’n dilyn asesiad cymesur
- cymorth sy’n galluogi unigolion i gael mynediad at y gofal a’r gefnogaeth briodol, gan gynnwys gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar.

Pwysig

Mae’r Côd Ymarfer ar gyfer Rhan 2 o’r Ddeddf (Swyddogaethau Cyffredinol) yn nodi bod y gwasanaeth GCCh yn ganolog i lwyddiant y trawsnewidiad i’r system gofal a chefnogaeth o dan y Ddeddf. Drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol o ansawdd da, gall pobl o bob oed gael eu cefnogi yn well i ystyried dewisiadau ar gyfer cwrdd â’u hanghenion gofal a chefnogaeth er mwyn cyflawni’r canlyniadau sy’n bwysig iddyn nhw.

Yn arbennig, mae’r Côd Ymarfer[1] angen i awdurdodau lleol:

- ddarparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â:
- sut mae’r system gofal a chefnogaeth yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol
- y mathau o ofal a chefnogaeth sydd ar gael
- sut i gael mynediad at y gofal a’r gefnogaeth sydd ar gael

- sut i godi pryderon ynglŷn â llesiant unigolyn sy’n ymddangos bod ganddo anghenion ar gyfer derbyn gofal a chefnogaeth
- hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac ataliaeth yn rhagweithiol
- bod yn onest a chroesawus, gyda phwyslais ar eiriolaeth a chydgynhyrchu.
- hyfforddi staff mewn protocolau diogelu.

Mewn perthynas â staffio’r gwasanaeth GCCh, mae’r Côd Ymarfer[2] angen i awdurdodau lleol:

- sefydlu tîm sy’n adlewyrchu cymysgedd o sgiliau a phrofiad o amrediad o weithwyr proffesiynol a sectorau
- datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer y gweithlu a ddylai gynnwys staff yn y rheng flaen yn gwethio o fewn y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a’r gweithlu ehangach
- sicrhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant gyda’r Offeryn Asesiad a Chymhwysedd Cenedlaethol ac mae’n rhaid iddyn nhw allu penderfynu’r angen i deulu, ffrindiau neu unigolion eraill eirioli ar ran yr unigolyn.

Mae Rhan 3 o’r Côd Ymarfer[3] yn gofyn am anghenion penodol mewn perthynas ag asesu'r anghenion:

- mae’n rhaid i’r holl ymarferwyr sy’n ymgymryd ag asesiadau feddu ar sgiliau, ac wedi’u hyfforddi a’u cymhwyso i ymgymryd ag asesiadau. Mae lefelau priodol o gymwysterau ar gyfer ymgymryd â’r gweithgareddau hyn yn cynnwys:
    - un ai ymarferydd gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol cofrestredig sy’n meddu ar gymhwyster proffesiynol lefel 5 neu uwch;
    - neu unigolyn sy’n meddu ar gymhwyster gofal cymdeithasol lefel 4 neu uwch, sy’n cynnwys gwybodaeth a sgiliau, yn ymgymryd ag asesiad sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, o dan oruchwyliaeth ymarferydd cofrestredig mewn gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol

- bydd awdurdod lleol hefyd angen cael ei fodloni bod yr holl staff sy’n ymgymryd â’r gweithgareddau hyn yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a’r cymhwysedd i weithio gyda phlant a phobl ifanc, oedolion a gofalwyr, fel y bo’n briodol.

[1] Rhan 2 o’r Côd Ymarfer, paragraffau 303, 308-310, 326 a 331

[2] Rhan 2 o’r Côd Ymarfer, paragraffau 385-388

[3] Rhan 3 o’r Côd Ymarfer: anghenion asesu

## Beth yw’r Fframwaith Cymwyseddau ar gyfer Gweithlu GCCh?

Mae’r *Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer y Gweithlu GCCh* (y fframwaith) yn nodi’r safonau y dylid eu defnyddio i lywio arfer ar gyfer rheini sy’n ymwneud â darparu gwybodaeth a/neu gyngor a/neu gymorth ar gyfer gofal a chymorth. Nid yw'r fframwaith yn orfodol ond bwriedir iddo fod yn declyn defnyddiol sy'n helpu awdurdodau lleol i ddatblygu cymhwysedd eu gweithwyr a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Gellir defnyddio’r safonau yn y fframwaith gan sefydliadau, cyflogwyr a darparwyr dysgu er mwyn:

- nodi eu hyfforddiant, eu haddysg a’u datblygiad presennol er mwyn sicrhau bod yr holl destunau wedi derbyn ymdriniaeth ddigonol
- comisiynu neu ddatblygu hyfforddiant, addysg a datblygiad
- mesur a datblygu’r cymhwysedd y gweithwyr/myfyrwyr/gwirfoddolwyr sydd ynghlwm â gwasanaethau GCCh yn barhaus
- sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cwrdd mewn perthynas â chyrhaeddiad addysg a chymwysterau gweithlu ehangach y GCCh

- adolygu a/neu ddatblygu polisïau a gweithdrefnau
- adolygu a/neu ddatblygu swydd-ddisgrifiadau a manylebau.

## Adnoddau i gefnogi’r fframwaith

Mae dau gymhwyster ar gael i’r gweithwyr hynny sy’n ymgymryd â swyddogaeth ‘ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol’, ac mae’r ddau fel ei gilydd yn ymdrin â’r holl safonau sydd yn y fframwaith:

- Tystysgrif AU mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru) y Brifysgol Agored
- Lefel 4 Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol y *City and Guilds*.

I’r rhai sy’n cyflawni rolau nad yw'n cynnwys ymwneud â chynllunio gofal a chymorth (asesu, cynllunio ac adolygu), mae amrywiaeth o fodiwlau dysgu yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, a fydd ar gael yn rhwydd i awdurdodau lleol ac unrhyw asiantaethau eraill sy’n ymwneud â darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddiwallu anghenion pobl. Bydd yr adnoddau dysgu hyn ar gael i'w cyflwyno gan reolwyr a hyfforddwyr mewnol, darparwyr dysgu a gomisiynir neu drwy ddarparwyr dysgu sy'n cynnig y cymhwyster ymarferwr gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adnoddau dysgu yn cael eu golygu ar hyn o bryd ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod y rhain ar gael cyn gynted â phosibl. Byddwn yn diweddaru'r dudalen hon gyda'r ddolen pan fydden ar gael.

Nodwch os gwelwch yn dda, byddai cynnwys a manylion yr hyfforddiant, yr addysg a’r datblygiad ar gyfer pob safon yn gwahaniaethu ar draws yr holl lefelau er mwyn adlewyrchu’r swyddogaethau, y cyfrifoldebau a beth mae pobl angen ei wybod a’i wneud.

Nodwch os gwelwch yn dda, byddai cynnwys a manylion yr hyfforddiant, yr addysg a’r datblygiad ar gyfer pob safon yn gwahaniaethu ar draws yr holl

lefelau er mwyn adlewyrchu'r swyddogaethau, y cyfrifoldebau a beth mae pobl angen ei wybod a'i wneud.

Rhagwelir y byddai unrhyw hyfforddiant, addysg a datblygiad yn cael ei gyflwyno o fewn cyd-destun y rheoliadau cenedlaethol presennol a'r polisi a'r canllawiau lleol a chenedlaethol.

Mae hon yn ddogfen fyw a gall y safonau a nodir yn y fframwaith gael eu diweddaru wrth i adnoddau gael eu datblygu. Bydd unrhyw fersiynau newydd yn cael eu rhifo a'u dyddio.

## Beth sydd yn y fframwaith cymwyseddau?

Mae saith adran yn y fframwaith:

Adran 1. Deddfwriaeth

PDF 361KB

Adran 2. Ymarfer proffesiynol

PDF 292KB

Adran 3. Damcaniaethau a modelau a'u perthynas â dulliau sy'n seiliedig ar hawliau a dulliau sy'n ganolog ar yr unigolyn/plentyn

PDF 276KB

Adran 4. Ffactorau sy'n cyfrannu at unigolion a/neu ofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth

PDF 438KB

Adran 5. Y broses asesu a gofal a chynllunio cefnogaeth

PDF 419KB

Adran 6. Diogelu unigolion

PDF 357KB

Adran 7. Cefnogi'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol electronig

PDF 278KB

Mae pob adran wedi'i rhannu i gyfres o ganlyniadau a safonau dysgu. Gall y safonau un ai fod yn wybodaeth neu'n ymarfer.

Mae rhywfaint o nodi **dangosol** yn erbyn y swyddogaethau 'gwybodaeth, cyngor a chymorth'. **Fodd bynnag, dylai pob awdurdod lleol a/neu asiantaeth, farnu yn erbyn swyddogaethau eu gweithwyr.**

## Sut i ddefnyddio'r fframwaith

Dylai awdurdodau lleol nodi swyddogaethau eu gweithlu GCCh yn erbyn y safonau er mwyn sefydlu pa un a fyddai'n berthnasol i weithwyr unigol. Byddai disgwyl i'r rhai hynny sy'n ymgymryd â swyddogaeth lawn ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol gwrdd â'r holl safonau.

Dylid wedyn defnyddio'r safonau a nodwyd ar gyfer pob gweithiwr i fesur ei gymhwysedd a datblygu rhaglen ddysgu a chefnogi er mwyn cwrdd ag unrhyw fylchau. Byddai hyn yn sicrhau bod proses gadarn ar gyfer pawb sy'n rhan o weithlu GCCh.

## Pa fathau o dystiolaeth a ellir eu defnyddio i ddangos bod y safonau wedi cael eu cyflawni?

Gellir defnyddio amrediad o dystiolaeth megis:

- cymhwyster cyrhaeddiad, er enghraifft, lefel 4 Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- mynychu cwrs hyfforddi a myfyrio ar y dysgu wedyn
- arsylliadau
- adborth gan eraill, fel unigolion sy’n defnyddio’r gwasanaethau / cwsmeriaid, cydweithwyr, mentoriaid ayyb.
- cyfnod prawf, goruchwyliaeth a chofnodion arfarnu.

Nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd angen ailhyfforddi gweithwyr sydd wedi dangos eu bod wedi cwrdd â’r safonau a nodwyd. Fodd bynnag, efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried defnyddio safonau ymarfer i oleuo prosesau goruchwyliaeth ac arfarnu er mwyn sicrhau bod yr ymarfer yn parhau i gwrdd â’r disgwyliadau. Mae datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn bwysig i bob gweithiwr beth bynnag fo'i rôl.

## Cadarnhau’r dystiolaeth

Gall amrediad o bobl arwyddo i gadarnhau bod y safonau a nodwyd wedi cael eu cwrdd. Er enghraifft, rheolwr llinell yr unigolyn, arweinydd gweithlu neu ddarparwr dysgu. Gall timau dysgu a datblygu’r awdurdod lleol ddarparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth ar gyfer cadarnhau’r safonau hyn.

Dylai’r gweithiwr a’i reolwr llinell gwblhau’r datganiad terfynol.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, cysylltwch â ni.